

Adroddiad Briffio Gweithdy

Gwerthuso, Effaith a Chanlyniadau ym maes gweithio gyda phlant ac ieuenctid wrth hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol

Paratowyd gan Dr Elin Royles (Prifysgol Aberystwyth), Dr Fiona O'Hanlon
(Prifysgol Caeredin) a'r Athro Rhys Jones (Prifysgol Aberystwyth)

Mai 2019



Cynnwys

	Crynodeb Gweithredol	4
	Prif Argymhellion	6
01.	Cyflwyniad	8
02.	Natur a chyd-destun mudiadau'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ymdrechion i hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu lleiafrifol	9
03.	Y cyd-destun allanol o ran gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol	12
04.	Y cyd-destun mewnol o ran gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol	14
05.	Persbectif mudiadau ar werthuso ac effaith: goblygiadau'r cyd-destun allanol	15
06.	Perspectif mudiadau ar werthuso ac effaith: goblygiadau'r cyd-destun mewnol	19
07.	Cryfhau ansawdd gwaith gwerthuso a chanlyniadau	21
08.	Rhannu arferion gorau a chyfoethogi methodolegau ar gyfer gwerthuso ac asesu effaith	22
	Atodiad: Rhaglen y Gweithdy	28
	Llyfryddiaeth	30

Crynodeb Gweithredol

Er gwaethaf elfennau cyffredin i'w gwaith a'r cyfleoedd a'r heriau a wynebir ganddynt, cyn y gweithdy hwn, ychydig iawn o ryngweithio a fu rhwng mudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym maes hyrwyddo iaith ar draws y pedwar achos: Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. O ganlyniad, nod y gweithdy oedd darparu man ar gyfer trafod profiadau, i gyfrannu at adeiladu capasiti, i rannu a chreu arfer da ac i ganfod camau nesaf posibl o ran gwerthuso, effaith a chanlyniadau yn y gwaith o hyrwyddo iaith. Y prif bwyntiau oedd:

- Mae'r mathau o fudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym maes hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn amrywio, ac felly hefyd eu nodau a'u gweithgarwch. Yn gyffredinol, drwy eu gwaith maent yn ceisio dylanwadu ar gyfuniad o'r canlynol: lefelau sgiliau iaith; dylanwadu'n gadarnhaol ar lefelau defnydd iaith pobl ifanc; ac agweddau pobl ifanc tuag at yr iaith, er enghraifft yr ymdeimlad o'i bri (Adran 2);
- Mae cyd-destun allanol pwysig i'w gwaith, sy'n adlewyrchu tueddiadau ehangach, gan gynnwys pwyslais cynyddol ar bolisi ar sail tystiolaeth a mwy o bwyslais ar gynyddu defnydd iaith wrth ymdrechu i hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol. O ganlyniad, mewn nifer o achosion mae pwyslais cynyddol ar asesu a gwerthuso effaith gwaith gyda phlant a phobl ifanc i hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Fodd bynnag, mae'n aneglur a yw'r dulliau gwerthuso yn cael eu rhoi ar waith yn gyson (Adran 3);
- Yn ogystal, mae cyd-destun mewnol pwysig i waith y mudiadau. Roedd y ffordd roedd mudiadau sy'n gweithio i hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn amlinellu eu nodau a'u hamcanion yn amrywio. Roedd rhai'n canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag iaith yn unig, tra bo eraill yn cysylltu hefyd ag agendâu ehangach, gyda'r rhain o bosibl yn cael eu dylanwadu gan yr angen i gefnogi nodau polisi eraill llywodraethol. Mae peth ansicrwydd a yw ehangu nodau yn y fath fodd yn ategu ymdrechion i hyrwyddo ieithoedd ynteu'n tynnu sylw oddi arnynt (Adran 4);
- Tra'r oedd rhai mudiadau'n gweithio mewn cyd-destun cyllido lle roeddent yn bennaf yn derbyn cyllid oedd yn benodol ar gyfer gwaith hyrwyddo ieithoedd, roedd mudiadau eraill yn gweithio mewn cyd-destunau lle nad oedd ond ychydig neu ddim cyllid o gwbl gan lywodraeth i gefnogi gwaith i hyrwyddo'r defnydd o iaith ranbarthol neu leiafrifol ymysg plant a phobl ifanc. O ganlyniad, roedd rhai mudiadau'n lleihau'r sylw, neu hyd yn oed yn celu gwir resymeg a nodwedd arbennig eu gwaith: sef gweithio drwy gyfrwng yr iaith ranbarthol neu leiafrifol. Yn ogystal, yn aml nid oedd gofynion gwerthuso cyllidwyr yn gwerthfawrogi nac yn gallu adnabod goblygiadau ieithyddol eu hymyriadau i hybu iaith (Adran 5);

- Ymysg y materion eraill y tynnwyd sylw atynt gan y mudiadau oedd: y ffordd oedd gwahanol gyd-destunau deddfwriaethol ar gyfer pob iaith leiafrifol neu ranbarthol yn effeithio ar agweddau cyllidwyr tuag at waith mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol; y potensial ar gyfer 'ehangu ar y genhadaeth' (mission creep); heriau o ran capasiti; a chyfyngiadau arferion gwerthuso cyfredol, yn enwedig eu pwyslais gormodol ar ddangosyddion meintiol (Adran 5);
- Roedd mudiadau eisiau defnyddio gwerthuso er mwyn gwella'u harferion ac ansawdd eu gweithgarwch ond roedd gwerthuso canlyniadau ac effaith eu gwaith, fodd bynnag, yn her. Y materion allweddol a godwyd oedd problemau o ran capasiti ac adnoddau mewnol, her effaith a gwerthuso mewn gweithgareddau a yrrir gan wirfoddolwyr, a gormodedd o ddata (Adran 6);
- O ganlyniad, galwodd mudiadau am ddull gweithredu gwahanol, mwy ystyrlon a datblygiedig o ran gwerthuso a mesur canlyniadau. Roeddent o blaid mwy o drafodaeth ar draws mudiadau a chyda chyllidwyr ynghylch beth sy'n realistig i'w fesur, pa fath o ddata sydd ei angen, a sut i sicrhau bod y data o ansawdd uchel. Roeddent yn gweld gwerth mewn datblygu gwell cydbwysedd rhwng agweddau ansoddol a meintiol ac i ddatblygu dulliau a allai wella mesur canlyniadau yng nghyswllt (i) gallu ieithyddol (ii) defnydd iaith (iii) hyder, ac yn benodol, mesur newid yn y rhain (Adran 7);
- Roedd cyflwyniadau'n ceisio rhannu arfer gorau a chyfoethogi'r methodolegau a ddefnyddir i asesu effaith y gwaith gyda phlant a phobl ifanc o ran hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, yn benodol yng nghyswllt: Theori Newid, dull y Newid Mwyaf Arwyddocaol; fframwaith gwerthuso Urdd Gobaith Cymru; data a gwerthuso ymdrechion i hyrwyddo iaith; Dulliau Arolwg Arsylwi Defnydd iaith; Ymchwil i Ffactorau sy'n Effeithio ar Ddefnydd iaith Pobl ifanc, a'r potensial i gynnwys plant fel ymchwilwyr (Adran 8).

Prif Argymhellion

Ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

- 1** Dylai mudiadau ddatblygu dull gweithredu a mwy datblygiedig o ran gwerthuso canlyniadau ieithyddol, yn enwedig drwy wahaniaethu'n gliriach rhwng gallu ieithyddol, defnydd iaith ac agweddau. Ar y sail hon, lle bo'n briodol, dylai mudiadau ddatblygu ffyrdd i wella'r asesiad o'u heffaith ar ddefnydd iaith ac agweddau pobl ifanc tuag at yr iaith, a rhoi mwy o flaenoriaeth i fesur newid yn y rhain.
- 2** Dylai mudiadau weithio'n fewnol i ddatblygu synnwyr cliriach o'r berthynas rhwng eu gweithgarwch, y math o ganlyniadau ieithyddol maent yn ceisio'u cyflawni, y dangosyddion mwyaf priodol, a dulliau o werthuso i ba raddau maent yn gwireddu'r canlyniadau hynny. Ar y sail hon, dylai mudiadau fabwysiadu dulliau i werthuso'r materion hynny mewn ffyrdd sydd wedi'u teilwra'n arbennig ac sydd fwyaf priodol o ran cyfansoddiad eu mudiad a datblygu hyder i rannu'r trafodaethau hyn yn allanol, gan gynnwys gyda chyllidwyr.
- 3** Yn y broses hon, dylai mudiadau geisio hyfforddiant a chymorth i arbrofi gyda dulliau newydd o werthuso a chynyddu eu gallu a'u hyder o ran dehongli a defnyddio'u data, gan gynnwys drwy ddysgu oddi wrth fudiadau eraill.
- 4** Ar sail y gwerth sy'n deillio o rannu profiadau ac arfer da fel y gwelwyd yn y gweithdy, dylai mudiadau ystyried sut y gallant adeiladu ar y sail hon i wneud y mwyaf o'r potensial i gynnal a chryfhau deialog ar draws mudiadau a gweithio i ddatblygu mwy o gydweithio, gan gynnwys gydag ymchwilwyr gweithredol yn y meysydd hyn.

Ar gyfer cyllidwyr a sefydliadau llywodraethol:

- 5** Yn achos ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, dylai'r polisi strategol a'r cyd-destun deddfwriaethol gydnabod gwerth y gwaith gan fudiadau i hyrwyddo'r ieithoedd hyn ymysg plant a phobl ifanc.
- 6** Dylid darparu cyllid i gynorthwyo gwaith gyda phlant a phobl ifanc ym maes hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, un ai cyllid yn benodol i'r diben hwn, neu drwy sicrhau bod ffrydiau cyllido gwaith ieuenctid prif ffrwd yn gefnogol i geisiadau gan fudiadau sy'n darparu gweithgareddau mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol. Dylai cyllidwyr gydnabod manteision dull gweithredu o'r fath o fewn eu meini prawf cyllido.

- 7 Gan adeiladu ar arfer da sydd eisioes yn datblygu, gall cyllidwyr fesur a dangos tystiolaeth rymusach o oblygiadau ieithyddol gweithgareddau yn ôl nodau ac amcanion ystyrllon, yn enwedig datblygu cydbwysedd fwy priodol rhwng dangosyddion meintiol a dangosyddion mwy ansoddol. Mae angen datblygu ymhellach ffyrdd o fesur effaith mudiadau neu ymyriadau ar lefelau defnydd iaith ac agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith dros amser.
- 8 Dylai cyllidwyr ddatblygu mwy o ddeialog gyda mudiadau ynghylch y mathau o ddata mae modd iddynt eu darparu a'r data mwyaf ystyrllon er mwyn asesu eu cyfraniad tuag at hyrwyddo iaith. Yn gyffredinol, dylid anelu at fabwysiadu agwedd tuag at werthuso sy'n rhoi mwy o bwyslais ar alluogi mudiadau i wella'u gallu i ddysgu, gwella'u harferion ac ansawdd eu gweithgareddau drwy werthusiad mwy gwirioneddol o'u cryfderau a gwendidau.
- 9 Dylai cyllidwyr fod yn ymwybodol o'r goblygiadau o ran capasiti a llwyth gwaith i fudiadau yng nghyswllt gwerthuso canlyniadau, yn enwedig pan fo mudiadau'n derbyn arian gan amrywiaeth o gyllidwyr. Mae gorfod adrodd ar wahanol ganlyniadau a dangosyddion i wahanol gyllidwyr yn heriol.



01. Cyflwyniad

- 1.1** Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar brif drafodaethau gweithdy a drefnwyd gan Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD), prosiect Canolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil a gyllidwyd gan ESRC ar Addysg, iaith a Hunaniaeth yng Nghymru a'r Alban.¹ Cynhaliwyd y gweithdy yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd a rydym yn ddiolchgar i'r Urdd am ddarparu'r lleoliad.
- 1.2** Nod y gweithdy oedd dwyn ynghyd ymarferwyr yn ymwneud â gweithgareddau hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol gyda phlant a phobl ifanc, yn benodol yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Iwerddon. O ran cyd-destun, mae gwaith ieuenctid a gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn wynebu heriau ynghylch sut i werthuso a dangos effaith a chanlyniadau eu gwaith. Mae gwaith mudiadau a chyrrff sy'n ceisio hyrwyddo'r defnydd o ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol ymysg plant a phobl ifanc yn wynebu materion ychwanegol a heriau posibl o ran gwerthuso ac asesu effaith ieithyddol eu gweithgarwch. Yn ogystal â dangos canlyniadau yng nghyswllt gwaith ieuenctid yn gyffredinol, rhaid iddynt hefyd geisio dangos effaith eu gwaith ar sgiliau iaith a defnydd iaith pobl ifanc; rhywbeth sy'n anodd i'w ddangos.
- 1.3** O ganlyniad, ceisiodd y gweithdy ddarparu man ar gyfer trafod profiadau, i gyfrannu at adeiladu capasiti, i rannu a chreu arfer da ac i adnabod camau nesaf posibl o ran gwerthuso, effaith a chanlyniadau yn y gwaith o hyrwyddo ieithoedd.
- 1.4** Trefnodd y prosiect weithdy blaenorol ynghylch gwerthuso, effaith a chanlyniadau yng nghyd-destun gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae'r adroddiad briffio'n darparu cyd-destun ar gyfer yr ail weithdy hwn (gweler y ddolen isod).²
- 1.5** Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r prif bwyntiau a gododd o'r cyflwyniadau a thrafodaethau grwpiau yn ystod y gweithdy. Mae'r cyflwyniadau ar gael ar wefan y prosiect (gweler y ddolen isod).³

¹ Manylion y prosiect: WISERD, Canolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil ESRC, pecyn gwaith 2.3 Addysg, iaith a Hunaniaeth, <https://wiserd.ac.uk/research/research-projects/education-language-identity>.

² Royles, E., Jones, Rh (2018) 'Adroddiad Briffio Gweithdy: Gwerthuso, Effaith a Chanlyniadau: Beth mae'n ei olygu i ni?' <http://cwps.aber.ac.uk/wp-content/uploads/2018/07/Gwerthuso-Effaith-a-Chanlyniadau-Beth-mae-n-ei-olygu-i-ni-Adroddiad-Terfynol.pdf>

³ Gwefan y prosiect: <https://wiserd.ac.uk/research/research-projects/education-language-identity>.

02. Natur a chyd-destun mudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol

- 2.1** Mae mudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym maes hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn cwmpasu gwahanol fathau o fudiadau sy'n cyd-fynd ag un o'r categorïau canlynol:
- Yn gyntaf, mae'n cynnwys y mudiadau hynny a sefydlwyd gyda'r prif nod o hyrwyddo iaith rhanbarthol neu leiafrifol. Gall eu gwaith fod yn canolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc, neu gall y garfan hon fod yn un o'r grwpiau mae'r mudiad yn gweithio gyda hwy.
 - Yn ail, mae hefyd yn cynnwys mudiadau sy'n canolbwyntio ar weithio gyda phlant a phobl ifanc. Efallai bod cynnal gweithgareddau drwy gyfrwng yr iaith rhanbarthol neu leiafrifol, neu'n ddwyieithog, yn llai canolog i'w gwaith, ond gall fod yn un agwedd ar eu gwaith yn sgil y cyd-destun cyfreithiol, cymdeithasol-ddiwylliannol neu wleidyddol penodol maent yn gweithredu o'i fewn.
 - Yn drydydd, mae'n cynnwys mudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng nghyswllt mater polisi arall, er enghraifft gwaith yn ymwneud ag amddifadedd cymdeithasol, neu faterion yn ymwneud ag iechyd. Er nad yw'r mudiadau hyn o'r herwydd yn ymwneud yn benodol â hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, mae eu lleoliad (e.e. mewn ardaloedd daearyddol penodol lle mae dwysedd cymharol uchel o siaradwyr yr iaith) yn golygu eu bod yn darparu'u gweithgareddau drwy gyfrwng yr iaith rhanbarthol neu leiafrifol, neu'n ddwyieithog.
- 2.2** Yn ymarferol, mae amcanion gwaith gyda phlant a phobl ifanc o ran hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn niferus ac yn dibynnu ar y cyd-destun penodol. Yn gyffredinol, er bod pwyslais ar ran ganolog y system addysg statudol mewn ymdrechion i hyrwyddo ieithoedd, mae tystiolaeth ar draws ystod o achosion yn tanlinellu'r ffaith nad yw'r system addysg yn ddigonol ar gyfer meithrin siaradwyr hyderus yn yr iaith. Yn hytrach, mae'n bwysig fod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol mewn lleoliadau/peuoedd cymdeithasol gwahanol.
- 2.3** O ganlyniad, gan ddibynnu ar natur y grwpiau maent yn gweithio gyda hwy, byddai disgwyl i fudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, fod yn ceisio dylanwadu ar gyfuniad o'r canlynol: lefelau sgiliau iaith; dylanwad cadarnhaol ar lefelau defnydd iaith pobl ifanc; agweddau pobl ifanc tuag at yr iaith, er enghraifft eu hymdeimlad o'i bri.

02.

- 2.4** Bu'r gweithdy'n fodd o ddwyn ynghyd amrediad o fudiadau a rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio'n bennaf yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Iwerddon ac yn gysylltiedig â hyrwyddo'r Gymraeg, yr Aeleg a'r Wyddeleg. Ymysg y prif elfennau cyffredin ar draws yr achosion mae'r ffaith eu bod i gyd yn ieithoedd Celtaidd, sef y prif ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol a siaredir yn y DU ac Iwerddon heddiw. Ar draws yr achosion, mae newid ieithyddol wedi digwydd wrth i ddylanwad y Saesneg gynyddu. Mae llawer o'r mudiadau'n gweithio mewn cyd-destunau gwledig a threfol (Glór na Móna oedd yr unig fudiad a gynrychiolwyd a oedd yn gweithio mewn cyd-destun mwy penodol drefol yn unig). O ganlyniad, rhaid i fwyafrif y mudiadau fod yn ymatebol i amgylchiadau'r iaith yn y ddau gyd-destun, sy'n aml yn wrthgyferbyniol: mae'r dwysedd uchaf o siaradwyr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn yr achosion hyn wedi'u lleoli mewn ardaloedd bregus yn economaidd-gymdeithasol, ac mae'r twf yn y gyfran o siaradwyr ieithoedd rhanbarthol neu lleiafrifol mewn ardaloedd trefol ble mae dwysedd is o siaradwyr iaith ranbarthol neu leiafrifol.
- 2.5** Y tu hwnt i'r elfennau cyffredin hyn, roedd gwahaniaethau sylweddol hefyd ar draws yr achosion o ran ffactorau demograffeg a chyd-destun ymdrechion i hyrwyddo ieithoedd, gydag effeithiau uniongyrchol ar fudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym maes hyrwyddo ieithoedd.
- 2.6** Yn gyntaf, roedd gwahaniaethau eithaf sylweddol o ran hyd ac amgylchiadau ymdrechion i hyrwyddo'r ieithoedd ym mhob achos, a oedd yn cael eu hadlewyrchu'n aml ym mha bryd y sefydlwyd mudiadau, ac i ba raddau roeddent yn derbyn cefnogaeth sefydliadol a chan lywodraeth. Roedd mudiadau oedd yn gweithio yng Ngweriniaeth Iwerddon yn gweithio mewn cyd-destun lle roedd sail hanesyddol sylweddol dros gefnogi'r Wyddeleg o ran deddfwriaeth iaith a hawliau iaith.
- 2.7** O ran Cymru a'r Alban, ers yr 1960au, mae ymgyrchu ac ymyriadau polisi cyhoeddus wedi tueddu i fod yn fwy amlwg a phellgyrhaeddol yn achos Cymru, a thrwy hynny wedi arwain at gyflwyno deddfwriaeth iaith yn gynharach. Fodd bynnag, yn yr Alban ac yng Nghymru, bu sefydlu datganoli yn 1999 yn gatalydd ar gyfer ymyriadau polisi mwy rhagweithiol ac ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg a'r Aeleg gan lywodraethau'r ddwy is-wladwriaeth, gan gynnwys Deddf Iaith Gaeleg (yr Alban) 2005 a sefydlodd asiantaeth cynllunio iaith statudol ar gyfer Gaeleg yr Alban.

02.

- 2.8** Mewn cyferbyniad, roedd absenoldeb cefnogaeth sefydliadol ragweithiol yn achos Gogledd Iwerddon, fel a ddangosir gan ddiffyg cyllid gan y wladwriaeth ar gyfer addysg drwy gyfrwng y Wyddeleg, wedi golygu mwy o bwyslais ar ymdrechion llawr gwlad i hyrwyddo'r iaith. Mae cefnogaeth gan y llywodraeth yn fwy diweddar, yn dilyn Adolygiad o Addysg drwy gyfrwng yr Wyddeleg gan Adran Addysg Gogledd Iwerddon yn 2009, a gydnabu y dylai annog a chefnogi cyfleoedd anffurfiol i ddysgu drwy gyfrwng yr Wyddeleg. O ganlyniad i hyn, sefydlwyd Fóram nan Óg yn 2009, fel corff rhanbarthol i hwyluso twf a datblygiad y sector ieuentid drwy gyfrwng yr Wyddeleg.
- 2.9** Fodd bynnag mae achos Gogledd Iwerddon hefyd yn tynnu sylw at yr ail wahaniaeth ar draws yr achosion o ran yr amrywiad yn lefelau gwleidyddoli hyrwyddo ieithoedd. Er gwaethaf camau ymlaen ar gyfer gwaith ieuentid drwy gyfrwng yr Wyddeleg, mae ar hyn o bryd yn gweithio mewn cyd-destun sydd wedi'i wleidyddoli'n sylweddol gan fod gwleidyddiaeth iaith yn cael ei hystyried yn ganolog i fethiant trafodaethau i adfer rhannu grym yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon, yn benodol yng nghyswllt tensiynau o ran penderfyniadau polisi'r DUP ynghylch yr iaith Wyddeleg a galwadau am ddeddfwriaeth iaith. Ym mhen arall y sbectrwm, tynodd Comunn na Gàidhlig sylw at natur fwy cyfyng y gweithredu a'r diffyg gwleidyddoli yng nghyswllt Gaeleg yn yr Alban. Amlygwyd hyn gan y gefnogaeth a roddwyd i ddatblygu'r Aeleg gan y Ceidwadwyr yn yr 1980/1990au cynnar, Llafur yn 1990au/2000au a llywodraeth gyfredol yr SNP.
- 2.10** Yn olaf, mae achos Gweriniaeth Iwerddon yn amlygu'r ffaith bod sefyllfa'r llywodraeth a sefydliadau o ran rhoi mwy o gefnogaeth i iaith ranbarthol neu leiafrifol weithiau'n amwys. O ran ei dau bolisi iaith pwysicaf ar hyn o bryd, sef Strategaeth yr Iaith Wyddeleg ar gyfer 2010-2030 a Deddf y Gaeltacht 2012, ystyrir bod y cyntaf o'r rhain heb ei gweithredu ac wedi'i hanwybyddu, a bod y llywodraeth wedi gwrthod ag ymgysylltu gyda diwygiadau a gynigiwyd i'r ail. Bu toriadau sylweddol i gyllid cyhoeddus hefyd, yn enwedig i gyllideb gyfalaf y Gaeltacht rhwng 2008 a 2017. Ymysg y prif esboniadau am y gostyngiad yng nghefnogaeth y wladwriaeth mae agweddau gwleidyddol negyddol tuag at y Wyddeleg, a'r amodau economaidd a chyllid cyhoeddus a grëwyd gan y cyfnod o galedi. Er bod achos Gweriniaeth Iwerddon yn cynrychioli'r darlun tywyllaf o'r potensial ar gyfer gostyngiadau yn y gefnogaeth sefydliadol i ymdrechion hyrwyddo iaith, ar draws yr achosion mae mudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym maes hyrwyddo ieithoedd yn wynebu cyd-destun cyllido mwy heriol.

03. Y cyd-destun allanol o ran gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol

3.1 Y ddau brif ddylanwad ar waith y mudiadau yw'r cyd-destun mewnol ac allanol. Yng nghyswllt y cyd-destun allanol, yn ei gyflwyniad amlinellodd yr Athro Rhys Jones bod y mudiadau yn gweithio yn y rhyngwyneb rhwng dau faes polisi: gwaith ieuenctid a pholisi iaith. Yn y cyd-destun hwn, mae'r pwyslais cynyddol ar bolisi ar sail tystiolaeth wedi golygu mwy o ddibyniaeth ar ddangosyddion meintiol i fesur effaith ac ar integreiddio gwerthuso wrth ddatblygu polisiau, yn unol ag ymarfer profi, dysgu ac addasu. Yn ehangach, mae cydnabyddiaeth y gall ymyriadau polisi cyhoeddus fethu'n aml am wahanol resymau yn dod yn fwy cyffredin. O ganlyniad, gall mudiadau elwa o fod yn fwy agored ynghylch y broses ddysgu a all ddigwydd pan nad yw ymyriadau'n gweithio. Yn ogystal, wrth i doriadau parhaus mewn gwariant cyhoeddus gynyddu'r angen i gyfiawnhau gwariant cyhoeddus, mae gallu mudiadau i allu dangos effaith eu gwaith hefyd wedi cynyddu mewn pwysigrwydd.

3.2 Ar y sail hon, mae dogfennau sy'n darparu'r cyd-destun polisi strategol mewn achosion fel Cymru, yr Alban ac Iwerddon yn dangos y pwyslais cynyddol ar fesur effaith gwaith gyda phobl ifanc. Dros amser, mae mecanweithiau i weld yn cael eu mireinio. Er enghraifft, roedd strategaethau blaenorol yn awgrymu diffyg aliniad clir rhwng nodau, canlyniadau a dangosyddion mewn ymyriadau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol:

'Nod: cynyddu darpariaeth gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.

Canlyniad a ddymunir: Plant a phobl ifanc yn defnyddio mwy ar yr iaith Gymraeg.

Dangosydd: Presenoldeb mewn digwyddiadau yn yr iaith Gymraeg a drefnwyd ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys rhai a drefnwyd gan rai sy'n derbyn grantiau gan lywodraeth Cymru' (Llywodraeth Cymru, 2012: 28)

Does dim cysylltiad syml rhwng presenoldeb mewn digwyddiadau a defnyddio'r iaith Gymraeg. O'r herwydd, mae cyfyngiadau i ddata o'r fath o ran gwerthuso effaith gwaith ieuenctid mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol. Fodd bynnag, mae arwyddion o gynnydd tuag at gryfhau'r sail dystiolaeth, rhoi pwyslais ar allu mesur yn fwy cadarn a dangos tystiolaeth o gyfraniad mudiadau, gan gynnwys drwy gasglu a dadansoddi data meintiol ac ansoddol.

03.

- 3.3** Mae'r strategaeth iaith Cymraeg 2050 yn cyfeirio at adeiladu sail dystiolaeth a defnyddio'r dulliau mwyaf priodol er mwyn asesu effeithlonrwydd ymyriadau, gan ddefnyddio cyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol (Llywodraeth Cymru 2015: 77). Yn yr un modd, mae Cynllun Cenedlaethol yr Aeleg yn cyfeirio at gasglu a chyhoeddi gwybodaeth o ystod o ffynonellau er mwyn olrhain cynnydd a datblygu ffyrdd o fesur cynnydd yn y defnydd o'r Aeleg er mwyn asesu a yw strategaethau'n gweithio (Bòrd na Gàidhlig, 2018: 55). Yn achos Iwerddon, roedd y Strategaeth 20 mlynedd ar gyfer yr Iaith Wyddeleg yn cyfeirio at broses awdit iaith a fyddai'n darparu tystiolaeth cyfres-amser o effaith polisiau a diwygiadau cysylltiedig ag iaith ar ddefnydd iaith (Llywodraeth Iwerddon 2010:24).
- 3.4** Yn gyffredinol, mae cyllidwyr ac ymarferwyr yn tueddu i bwysleisio'r angen i ddangos canlyniadau ac effaith gwaith gyda phlant a phobl ifanc i hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Ar draws yr achosion, ymddengys fod y pwyslais mwyaf ar ymdrechu i sicrhau effeithlonrwydd eu hymyriadau, yn hytrach na bod yn gysylltiedig â sicrhau gwerth am arian. Mae'r strategaethau'n cynnig dulliau newydd o gyflawni eu nodau o werthuso effaith gyda ffocws penodol ar amser, ond nid yw bob amser yn eglur a yw'r rhain yn cael eu gweithredu.



04. Y cyd-destun mewnol o ran gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol

- 4.1** Yn ogystal â'r cyd-destun allanol, roedd cyflwyniad Rhys Jones hefyd yn tynnu sylw at yr amrywiaeth o ffyrdd a ddefnyddir gan fudiadau sy'n gweithio i hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol i amlinellu eu nodau a'u hamcanion, er enghraifft mewn dogfennau strategaeth, adroddiadau a datganiadau cenhadaeth. Cwestiwn allweddol oedd i ba raddau roedd angen bod cysylltiad cryf rhwng nodau ac amcanion mudiad a'r ffyrdd y byddai eu gwaith yn cael ei werthuso, ac a fyddai angen i'r holl nodau ac amcanion fod yn fesuradwy.
- 4.2** Ymysg y tueddiadau allweddol, roedd nifer o fudiadau, yn ddealladwy, yn meddu ar amcanion oedd â ffocws penodol yn gysylltiedig â'u cyfraniad i hyrwyddo'r iaith leiafrifol, yn enwedig yn nhermau cryfhau gallu ieithyddol, darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol leoliadau a meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith. Yn unol â hyn, roedd rhai yn tynnu sylw at eu cyfraniad o ran creu cymunedau iaith, neu at adeiladu rhwydweithiau o siaradwyr yr iaith. Yr hyn a oedd rywfaint yn llai eglur oedd sut i werthuso a mesur i ba raddau roeddent yn cyflawni'r rhain.
- 4.3** Mewn achosion eraill, roedd nodau ac amcanion mudiadau ychydig yn fwy eang wrth iddynt hefyd gwmpasu eu rôl o ran hyrwyddo mynegiant o hunaniaeth a diwylliant. Roedd y ffyrdd o fynegi hyn yn amrywio, gan gynnwys achos o fudiad yn cyflwyno eu hunain fel corff oedd yn galluogi pobl ifanc i ddod yn 'ymgorfforiad byw o'n hiaith a'n diwylliant' (Adroddiad Blynyddol Urdd Gobaith Cymru 2017-18).
- 4.4** Hefyd, roedd nodau ac amcanion datganedig rhai mudiadau'n ehangach, gan gwmpasu eu cyfraniad tuag at ddatblygiad cymdeithasol a phersonol unigolyn ifanc. Roedd nodau ehangach o'r fath yn cynnwys galluogi plant a phobl ifanc i wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at y gymuned, i ddatblygu eu hyder a'u hiechyd meddwl. Yr awgrym oedd bod rhai mudiadau'n alinio'u hunain â nodau meysydd polisi eraill (ac o bosibl gynlluniau polisi eraill y llywodraeth) megis creu 'gwell' dinasyddion, gwella lefelau cyflawniad academiaidd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a Phobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET). Er y gallai'r mudiadau wneud cyfraniad gwerthfawr tuag at yr agendâu hyn, mae cwestiynau yma, ynghylch i ba raddau mae'r datblygiad hwn yn ategu gwaith mudiadau ieuenctid sy'n gweithio mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol, neu a yw'n tynnu eu sylw oddi ar eu prif nodau ieithyddol.

05. Persbectif mudiadau ar werthuso ac effaith: goblygiadau'r cyd-destun allanol

- 5.1** Tynnodd y cyflwyniadau a thrafodaethau grŵp yn y gweithdy sylw at bwyntiau allweddol ynghylch goblygiadau'r cyd-destun allanol a mewnol i'w gwaith o ran gwerthuso ac effaith.
- 5.2 Ymatebion cyllidwyr i 'fudiadau hyrwyddo iaith'**
Roedd cyllidwyr yn cael effaith sylweddol ar y math o ganlyniadau roedd mudiadau yn ceisio'u cyflawni. Roedd hyrwyddo iaith yng nghyswllt plant a phobl ifanc yn ceisio cael cyllid o ddau fath o asiantaethau ac adrannau llywodraeth; fel 'mudiadau i hyrwyddo iaith', ac o ffynonellau cyllid i gefnogi 'mudiad gwaith ieuenctid' i hyrwyddo iechyd, llesiant a datblygiad cymdeithasol pobl ifanc.
- 5.3** Roedd rhai mudiadau'n gweithio mewn cyd-destun cyllido lle roeddent yn bennaf yn cael mynediad at gyllid oedd yn benodol ar gyfer gwaith hyrwyddo iaith. Yn yr amgylchiadau hyn, roedd cysylltiad clir rhwng eu hamcanion craidd a'r ffordd roedd effaith a chanlyniadau eu gweithgareddau'n cael eu hasesu. Gallai'r mudiadau hyn hefyd geisio cyllid gan fathau eraill o noddwyr gyda blaenoriaethau gwahanol, a gallai ddylanwadu ar y ffordd y byddent yn cyflwyno'u canlyniadau arfaethedig mewn ceisiadau am gyllid, e.e. canolbwyntio mwy ar y canlyniadau gwaith ieuenctid a lleihau'r ffocws ar yr iaith roedd y gweithgareddau'n cael eu cynnal ynddi.
- 5.4** Yn y pegwn arall, roedd mudiadau eraill yn gweithio mewn cyd-destunau lle nad oedd ond ychydig o gyllid, neu ddim o gwbl yn benodol ar gyfer cefnogi gwaith i hyrwyddo defnydd o'r iaith ranbarthol neu leiafrifol ymysg plant a phobl ifanc. O ganlyniad, roeddent yn ceisio un ai llunio'u rhaglenni'n unol â gofynion cyllidwyr y llywodraeth er mwyn sicrhau cyllid, neu geisio ffynonellau gwahanol o gyllid gan gyrff anlywodraethol neu elusennau lle'r oedd y meini prawf ar gyfer ceisio am gyllid yn fwy hyblyg. O ganlyniad, roedd rhai mudiadau'n teimlo bod yn rhaid iddynt bwysleisio a dangos eu cryfderau a'u hansawdd mewn agwedd arall ar eu gwaith, e.e. darpariaeth gwaith ieuenctid. Mewn rhai achosion, roedd mudiadau'n lleihau'r sylw i, neu hyd yn oed yn celu gwir resymeg a nodwedd arbennig eu gwaith: gweithio drwy gyfrwng yr iaith ranbarthol neu leiafrifol, er y gallai darparu'r gweithgarwch mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol arwain at fwy o effaith uniongyrchol, fod yn fwy ystyrlon a rhoi mwy o fudd i bobl ifanc. Roedd rhai mudiadau, o'r herwydd, yn teimlo eu bod yn cael eu barnu yn erbyn amcanion a safonau gwaith ieuenctid yn unig oherwydd y cyd-destun cyllido. Teimlai eraill bod diffyg hyblygrwydd y cyllid a'r meini prawf cyllido anffafriol yn eu rhoi dan anfantais wrth geisio gwireddu eu hamcanion hyrwyddo iaith.

05.

- 5.5** Gan ystyried y diffyg cydnabyddiaeth o weithio drwy gyfrwng iaith ranbarthol neu leiafrifol mewn rhai cyd-destunau, nid oedd gofynion gwerthuso cyllidwyr yn gallu adnabod goblygiadau ieithyddol yr ymyriadau. Er enghraifft, byddai adrodd ar ganlyniadau yng nghyswllt cynnydd a llwyddiannau'n deillio o gyfranogaeth pobl ifanc mewn gwaith ieuenctid yn canolbwyntio ar ganlyniadau megis: gwell gallu; datblygu perthnasoedd cadarnhaol gydag eraill; gwell iechyd a llesiant; gwell cyfranogaeth; datblygu sgiliau meddwl, sgiliau bywyd a gwaith; dinasyddiaeth weithredol. Ystyriwyd bod diffyg adrodd ar ganlyniadau ieithyddol yn lleihau'r potensial ar gyfer dysgu o fewn mudiad o ran ei amcanion craidd.
- 5.6** Yn achos Gogledd Iwerddon, roedd amgylchiadau o'r fath hefyd wedi arwain at gwestiynu gwerth gwerthuso ac asesiadau effaith, gan nad oeddynt yn cyfrannu at gyflawni nodau'r mudiad, nac at annog arfer da yng nghyswllt gweithgareddau hyrwyddo iaith gyda phlant a phobl ifanc. Yn ogystal, yn 2016 roedd mudiadau ieuenctid wedi gweithio ar fodel o Waith Ieuenctid drwy gyfrwng yr Wyddeleg er mwyn datblygu statws yr iaith ym maes gwaith ieuenctid. Mae'r model wedi ceisio rhoi mwy o sylw i ganfod y gwerth a deimlir gan bobl ifanc drwy allu cymdeithasu drwy gyfrwng yr Wyddeleg, gan gynnwys y modd mae eu hymgysylltu wedi cyfrannu tuag at normaleiddio defnydd o'r iaith Wyddeleg a chynyddu hyder mewn defnyddio'r iaith.
- 5.7 Goblygiadau'r cyd-destun deddfwriaethol**
Roedd yr heriau a wynebodd rhai mudiadau wrth sicrhau cyllid i gefnogi gweithgareddau iaith yn cael eu dylanwadu gan i ba raddau roedd y fframwaith deddfwriaethol yn diogelu ac yn hyrwyddo iaith ranbarthol neu leiafrifol, neu i ba raddau roedd cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â deddfwriaeth iaith.
- 5.8** Yn ystod trafodaethau, nododd mudiadau a oedd yn gweithio yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wahaniaethau yn agwedd corff cyllido ar draws y DU tuag at geisiadau prosiect a oedd yn cyfeirio at weithio mewn iaith leiafrifol. Mewn rhai achosion, teimlai mudiadau y gallent gynnwys yr agwedd hon yn eu ceisiadau i gefnogi eu siawns o sicrhau cyllid. Mewn achosion eraill, roedd risgiau y byddai'r corff cyllido'n llai tebygol o gymeradwyo cais i ymgymryd â gwaith drwy gyfrwng iaith ranbarthol neu leiafrifol. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddai mudiadau'n pwysleisio'r elfen hon, nac yn cyfeirio ati yn eu cais, oherwydd y risg o leihau'r siawns o gais llwyddiannus. Yn gyffredinol, y nodwedd a oedd yn pennu ymateb y corff cyllido ar draws y DU yn yr achosion hyn oedd cryfder cymharol y fframwaith statudol o ran mynnu bod cyllidwr yn cydymffurfio â deddfwriaeth iaith. Po gryfaf oedd y fframwaith, mwy cadarnhaol oedd yr ymateb i geisiadau a oedd yn ymgorffori gweithio yn yr iaith leiafrifol.

05.

5.9 Mewn achosion eraill, cyfeiriodd mudiadau at enghreifftiau lle roedd eu siawns o sicrhau cyllid ar gyfer gwaith drwy gyfrwng iaith ranbarthol neu leiafrifol yn cael ei lesteirio gan y ffaith nad oedd rhai cyrff cyhoeddus yn gweithredu'n unol â gofynion y fframwaith deddfwriaethol roeddent yn gweithio o'i fewn. Er enghraifft, nododd rhai mudiadau na fyddai rhai cyrff cyhoeddus yn darllen ceisiadau pe byddent yn cael eu cyflwyno yn yr iaith leiafrifol, er bod y cyd-destun deddfwriaethol yn darparu ar gyfer hynny.

5.10 Potensial ar gyfer 'ehangu cenhadaeth'

Roedd y ffordd mae mudiadau'n gorfod mowldio'u hunain a cheisio cyllid fel mudiadau iaith a/neu fudiadau gwaith ieuentid yn creu risgiau posibl yn nhermau 'ehangu cenhadaeth' (mission creep). Yn gyffredinol, yr awgrym oedd fod yn rhaid i unrhyw fudiad a oedd yn derbyn cyllid gan lywodraeth addasu neu ehangu eu hamcanion i ryw raddau er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd am gyllid, ond bod risgiau wrth symud i ffwrdd oddi wrth amcanion craidd y mudiad.

5.11 Er enghraifft, er mwyn cael mynediad at gyllid gwaith ieuentid, roedd mudiadau'n gorfod gweithio'n gynyddol i hyrwyddo iechyd, llesiant a datblygiad cymdeithasol pobl ifanc. Mewn rhai achosion, roedd mudiadau cael eu hannog i bwysleisio manteision economaidd ac effaith eu mudiad ar gyflogaeth, er enghraifft wrth gyfrannu at gyflogaeth pobl ifanc a hyfforddiant mewn iaith leiafrifol neu ranbarthol a chreu gweithwyr sy'n defnyddio iaith ranbarthol neu leiafrifol yn y gweithle.

5.12 Mae modd edrych yn fwy cadarnhaol ar 'ehangu cenhadaeth'. Esboniodd rhai mudiadau bod newidiadau yn amcanion eu mudiad hefyd yn deillio o fwy o fewnbwn gan eu haelodau, pobl ifanc a oedd yn ennill mwy o lais o fewn y mudiad. Er enghraifft, roedd aelodau'n dymuno i'r mudiad weithio mwy ar faterion megis iechyd meddwl pobl ifanc. O ganlyniad, mae angen deall y dylanwadau niferus o ran ehangu amcanion mudiadau.

5.13 Heriau o ran capasiti

Tynnodd mudiadau sylw at faterion capasiti wrth dderbyn cyllid gan amrediad o gyllidwyr. Roedd adrodd i wahanol gyllidwyr yn gofyn am ddefnyddio gwahanol ganlyniadau a dangosyddion, dulliau gwerthuso a gweithio i wahanol amserlenni adrodd. O ganlyniad, roedd swm sylweddol o waith yn gysylltiedig â gwerthuso ac adrodd yn creu heriau o ran capasiti, yn enwedig i fudiadau llai. Er enghraifft, cyfeiriodd un mudiad bychan at dderbyn cyllid gan wyth o wahanol ffynonellau cyllido, pob un yn gofyn am adrodd ar wahanol ganlyniadau ac ystadegau mewn cyd-destun lle nad oedd ganddynt swyddog gwerthuso.

05.

5.14 Arferion cyfredol cyllidwyr a dangosyddion o ran gwerthuso gwaith hyrwyddo iaith

Tynnodd fudiadau sylw at y gwahaniaethau mawr mewn arferion ar draws achosion o ran gwerthuso gwaith hyrwyddo iaith. Mewn achosion o arfer da, roedd gwerthuso prosiectau oedd yn cael eu cyllido i hyrwyddo'r iaith ranbarthol neu leiafrifol yn defnyddio ystod eang o ddangosyddion, gan gynnwys dangosyddion meintiol, gyda phwyslais cynyddol ar ddangosyddion meddalach neu fwy ansoddol, gan gynnwys deall cynnydd pobl ifanc. Yn yr achos Cymreig, er enghraifft, ar hyn o bryd roedd lleihad o ran cysondeb adrodd yn ôl, gan symud tuag at gylchoedd adolygu ddwywaith y flwyddyn, ac o fewn y rhain roedd deialog mwy gonest yn cael ei datblygu gyda chyllidwyr. Roedd hyn yn arwain at drafodaeth fwy realistig ynghylch yr hyn y gall mudiadau ei ddarparu a beth sy'n hwyluso hyrwyddo iaith.

5.15 Cyfyngiadau ar arferion gwerthuso

Y tu hwnt i hyn, nodwyd nifer o gyfyngiadau posibl o ran arferion gwerthuso cyfredol:

- Mewn nifer o achosion, teimlai mudiadau bod risgiau mewn gwerthuso a oedd wedi'i seilio'n ormodol ar ddangosyddion meintiol, nad oeddynt bob amser y rhai mwyaf priodol i ganfod gwir ansawdd effaith ymyriadau mudiadau. Nid oedd y duedd i ddefnyddio dangosyddion meintiol megis y nifer o ddigwyddiadau, a faint oedd wedi mynychu'r digwyddiadau hynny yn gallu ystyried yr effaith ar faterion pwysicach, yn enwedig ansawdd y profiad a'i effeithiau ar iaith y rhai oedd yn bresennol. Nid oedd dangosyddion o'r fath yn ystyried chwaith y goblygiadau o ran cyferbyniad yn y niferoedd a allai gymryd rhan mewn gweithgareddau, er enghraifft rhwng ardaloedd gwledig a threfol.
- Arferion eraill a nodwyd oedd diffyg sylw i werthuso mewn rhai achosion, un ai oherwydd nad oedd materion iaith wedi'u hintegreiddio yn y mecanweithiau gwerthuso, neu lle roedd yn ymddangos bod diffyg sylw digonol yn cael ei roi i werthuso effeithiau ieithyddol cyllid a oedd yn cael ei gyfeirio tuag at hyrwyddo iaith. Yn lle hynny, roedd mwy o sylw'n cael ei roi i ddangosyddion meintiol eraill, fel faint o bobl oedd wedi eu 'hoffi' ar gyfryngau cymdeithasol.
- Yn gyffredinol, mae tuedd i bwysleisio canlyniadau tymor byr, tra bo effaith ar agweddau tuag at yr iaith yn debygol o fod yn fwy sylweddol yn y tymor hwy. Er ei bod braidd yn afresymol disgwyl i fudiad allu dangos a mesur ei effeithiau hirdymor, mae risg y bydd cyllid yn cael ei flaenoriaethu tuag at ganlyniadau tymor byr ac i fudiadau sy'n gallu pwysleisio cryfderau eu canlyniadau tymor byr.

06. Perspectif mudiadau ar werthuso ac effaith: goblygiadau'r cyd-destun mewnol

6.1 Roedd mudiadau yn dymuno defnyddio gwerthuso i wella'u harferion ac ansawdd eu gweithgareddau gyda phlant a phobl ifanc wrth hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Er enghraifft, roeddent eisiau gallu cadarnhau eu bod fel mudiad yn creu gweithgareddau ystyrlon ar gyfer hyrwyddo iaith, eu bod yn cael effaith, a'u bod eisiau dysgu er mwyn gwella a chryfhau eu gwaith.

6.2 Adnoddau a dangosyddion ansoddol priodol

Roedd gwerthuso canlyniadau ac effaith eu gwaith, fodd bynnag, yn her i fudiadau. Un mater allweddol oedd anhawster cael dulliau priodol i fesur defnydd iaith, hyder, ac agweddau fel cyfraniad mudiad tuag at hunaniaeth unigolyn ifanc. Er enghraifft, amcan mudiad fel Comunn na Gàidhlig yw annog a chefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Aeleg ac maent yn dymuno mesur tuedd pobl ifanc i ddefnyddio'r iaith. Fodd bynnag, maent yn tueddu i fesur presenoldeb yn ôl dangosyddion fel oriau cyswllt fesul tymor, niferoedd yn mynychu gwर्सylloedd haf, niferoedd yr ysgolion sy'n cymryd rhan mewn cystadleuaeth pêl-droed. Roeddent yn teimlo eu bod yn wynebu her o ran eu gallu i fesur parodrwydd i ddefnyddio'r iaith a chynnal ymchwil o ran agweddau. Un ffordd roeddent wedi ymchwilio i hyn mewn prosiect unigol oedd drwy gasglu tystiolaeth astudiaeth achos drwy arsylwi uniongyrchol, trafodaethau gwerthuso, gan gynnwys defnyddio taflenni gwerthuso, dyddiaduron fideo a thrafodaethau gyda chyfranogwyr.

6.3 Trafodwyd hefyd fanteision ac anfanteision gwerthuso allanol. Roedd rhai mudiadau un ai wedi comisiynu neu wedi chwarae rhan mewn prosiectau a gomisiynwyd yn allanol lle roedd ymgynghorydd allanol yn gwerthuso eu heffeithlonrwydd. Er y nodwyd llawer o bwyntiau cadarnhaol ynghylch y dull hwn, ymysg y risgiau posibl oedd diffyg gallu i ystyried yn ddwys y cyd-destun roedd mudiad yn gweithio ynddo a sut y gallai hyn ddylanwadu ar werthuso.

6.4 Capasiti

Roedd mudiadau hefyd yn wynebu problemau o ran capasiti ac adnoddau mewnol a oedd yn effeithio ar eu gwaith gwerthuso ac asesu effaith. Mewn nifer o achosion, roedd y mwyafrif helaeth o adnoddau'r mudiad yn canolbwyntio ar waith ar y rheng flaen. Roedd costau gorbenion gweinyddol wedi'u lleihau i'r eithaf ac nid oedd ganddynt ond ychydig amser ar gyfer gwaith gwerthuso ac effaith. Roedd gweithgareddau'n aml yn cael eu harwain gan swyddogion ar gontractau 0.5 yn gweithio ar ben eu hunain mewn gwahanol gymunedau. Mewn sawl ffordd, roedd yn llawer haws casglu data meintiol, ond fel y nodwyd uchod, roedd mudiadau'n cydnabod bod creu dealltwriaeth fwy trylwyr o ddylanwad gweithgaredd yn galw am fathau gwahanol, mwy ansoddol, o ddata.

06.

6.5 Roedd mudiadau'n chwilio am ddulliau a oedd yn hawdd eu defnyddio, ac yn cydnabod yr angen am hyfforddiant a chefnogaeth i gynyddu'u capasiti. Roedd mudiadau'n ymwybodol o anfanteision bod heb hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol: treulio gormod o amser yn casglu tystiolaeth a cheisio dadansoddi'r data, a oedd yn mynd â hwy oddi wrth y gweithgareddau roeddent yn cael eu hariannu i'w darparu.

6.6 Heriau effaith a gwerthuso mewn gweithgareddau a yrrir gan wirfoddolwyr

Yn gyffredinol, roedd mudiadau'n gwrthgyferbynnu safbwynt staff cyflogedig a gwirfoddolwyr tuag at gasglu a dadansoddi data. Mae'r garfan gyntaf yn gwerthfawrogi mwy ar bwysigrwydd data ac yn ymwneud mwy â'i gasglu, ac mae mudiadau'n ei chael yn fwy anodd cynnwys gwirfoddolwyr yn y gweithgareddau hyn. Amlygwyd y pwynt hwn yn narpariaeth Cumann na bhFiann o glybiau ieuencid yn y Wyddeleg er mwyn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Wyddeleg y tu allan i'r ysgol. Rhoddir pwyslais cryf yn y model ar bobl ifanc eu hunain yn rhedeg clybiau yn hytrach na rhieni ayb., ac mae hefyd yn gweithio i gadw pobl ifanc yn gysylltiedig â'r mudiad hyd nes eu bod yn 24-25 mlwydd oed. O ganlyniad, mae'r model yn hynod ddibynnol ar ei academi hyfforddi arweinyddiaeth, lle gall aelodau eu clybiau wirfoddoli i ymuno â'r academi pan fyddant oddeutu 15 mlwydd oed a gweithio drwy bedwar cam y rhaglen arweinyddiaeth hyd nes eu bod yn rhedeg clybiau. O ganlyniad, mae hyrwyddo iaith bron yn gwbl ddibynnol ar wirfoddoli ac mae angen 200 o wirfoddolwyr y flwyddyn i redeg y clybiau. Gan ystyried y nifer bychan o staff ac adnoddau, mae'r mudiad yn llawer mwy dibynnol ar ddulliau anffurfiol o werthuso'u gwaith lle mae gwirfoddolwyr yn cyflwyno data wythnosol ar bresenoldeb a gweithgareddau, sydd wedi hynny'n cael eu dadansoddi ar sail fframwaith o adolygu ganol y flwyddyn ac yn flynyddol. Mae sefyllfa o'r fath yn gwneud datblygu ffurfiau mwy parhaus o werthuso'n fwy heriol.

6.7 Heriau data

Trafododd mudiadau'r risgiau o gasglu gormod o ddata a bod ganddynt ddiffyg hyder ynghylch sut i ddadansoddi, dehongli a defnyddio'u data presennol. Felly mae angen i fudiadau fod â hyder yn eu systemau mewnol, y math o ddata a gesglir ganddynt, a sut i'w dehongli a'i ddefnyddio. Nid oedd gan rai mudiadau ymdeimlad digonol o'r hyn sy'n rhesymol ac yn realistig yn nhermau casglu data ac roedd consensws y dylai hyn gael ei deilwra ar gyfer mudiadau fel ei fod yn gyson â'u maint.

07. Cryfhau ansawdd gwaith gwerthuso a chanlyniadau

- 7.1** O ganlyniad, galwodd mudiadau am ddulliau gweithredu gwahanol ar gyfer gwerthuso a mesur canlyniadau.
- 7.2** Roedd gan fudiadau ddiddordeb mewn datblygu dulliau i fesur canlyniadau yn y ffyrdd canlynol:
- Mwy o sylw i fesur canlyniadau yng nghyswllt (i) gallu (ii) defnydd iaith (iii) agweddau a hyder, ac yn benodol, mesur newid yn y rhain.
 - Gwahaniaethu yn y broses o werthuso'r canlyniadau rhwng gweithio gyda siaradwyr iaith gyntaf neu rai'n dysgu'r iaith. Roedd hyn eisoes yn cael ei gyflawni mewn rhai cyd-destunau lle roedd gwerthuso'n ymateb i wahanol dargedau ar gyfer gwaith gyda rhai oedd yn dysgu'r iaith a siaradwyr iaith gyntaf.
 - Byddai dull gweithredu cyfun, gyda chymbwysedd gwell rhwng dulliau ansoddol a meintiol, yn fwy effeithiol o ran mesur canlyniadau ac ansawdd eu gwaith.
 - Rhoi mwy o sylw i lefel dwysedd siaradwyr yr iaith, e.e. effaith gwaith mewn ardaloedd ble mae dwysedd uchel o siaradwyr yr iaith ac ardaloedd ble mae dwysedd isel o siaradwyr. Mae'r pwynt diwethaf yn amlygu'r ffaith y gall gwaith mudiadau unigol fod yn wahanol iawn i'w gilydd, dan ddylanwad gwahaniaethau demograffig: gweithredu fel mudiadau gwaith ieuencid mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol mewn ardal lle mae dwysedd uchel o siaradwyr yr iaith, o gymharu â darparu gweithgareddau i bobl ifanc i hyrwyddo iaith ranbarthol neu leiafrifol mewn ardaloedd ble ceir dwysedd is o siaradwyr yr iaith.
 - Mwy o bwyslais ar y pellter sy'n cael ei deithio – yn ieithyddol neu fel arall – gan unigolyn yng nghyd-destun gweithgaredd/ymgysylltu gyda mudiad.
 - Adlewyrchu datblygiadau ble mae rhai cyllidwyr yn rhoi mwy o bwyslais ar werthuso i hyrwyddo gallu mudiad i ddysgu drwy annog gwerthuso gwirioneddol ar gryfderau a gwendidau dulliau gweithredu, cefnogi arferion newydd sy'n dod i'r golwg yn hytrach nac arfer gorau, a chreu'r potensial i fudiadau allu dysgu o fethiant.
 - Yn gyffredinol, roedd consensws ymysg mudiadau am yr angen i herio'u hunain a'u cyllidwyr i ddadansoddi beth sy'n realistig i'w fesur, pa fath o ddata sydd ei angen, a sut i sicrhau bod y data sy'n cael ei gasglu o ansawdd uchel.

08. Rhannu arferion gorau a chyfoethogi methodolegau ar gyfer gwaith effaith a gwerthuso

8.1 Cafwyd amrywiaeth o gyflwyniadau i rannu arfer gorau a chyfoethogi'r methodolegau a oedd yn cael eu defnyddio gan fudiadau yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym maes hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol.

8.2 Theori Newid (Rhys Jones)

Mae Theori Newid yn darparu fframwaith ar gyfer canfod a mapio'r holl weithgareddau a phrosesau (allbynnau), a sut mae'r prosesau hyn yn arwain at ganlyniadau canolradd (canlyniadau gweithredu a phrosesau), a'u cyswllt ag effaith neu nodau terfynol yr ymyriad/mudiad. Mae'r syniad yn golygu datblygu asesiad o effaith rhaglen neu ymyriad er mwyn darparu fframwaith clir, cryno a chadarn i esbonio a chyfiawnhau'r berthynas rhwng gweithgareddau penodol a'u nod yn y pen draw.

8.3 Gall y fframwaith alluogi meddwl yn ôl o effaith arfaethedig y gwaith, i lunio'r fframwaith gwerthuso a monitro mewn modd sy'n cyd-fynd â'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal o'r dechrau. Mae'n cael ei ystyried yn arf gwerthfawr ar gyfer gwerthuso effeithiol, gydag awgrym bod cyllidwyr o'r farn y gall defnyddio fframwaith y theori newid arwain at geisiadau mwy llwyddiannus gan ei fod yn darparu gwell dealltwriaeth o'r hyn mae mudiad yn bwriadu ei wneud. Mae modelau theori newid yn amrywio. Mae rhai modelau'n dadlau bod canlyniadau o fewn cylch dylanwad mudiad, tra bod effaith yn nwylo eraill, ac nad yw 'darparwyr' yn atebol.

8.4 Dull y Newid Mwyaf Arwyddocaol (Rhys Jones)

Cyflwynwyd dull y Newid Mwyaf Arwyddocaol (MSC) fel dull y gellid ei integreiddio i asesiadau data ansoddol presennol, yn enwedig astudiaethau achos, gan ddarparu mwy o fanylder. Mae'n canolbwyntio ar gasglu straeon am newid arwyddocaol, gan arwain at ddewis y straeon hyn yn systematig o fewn y mudiad mewn ffordd a all ddenu diddordeb pob lefel yn y mudiad o ran asesu ei effaith. O ganlyniad, gall hysbysu gwerthuso a monitro canlyniadau ac effaith canolradd.

8.5 Mae'r ymarfer yn seiliedig ar ofyn cwestiwn i'r unigolyn ifanc ynghylch y newid mwyaf arwyddocaol iddo ef/hi o fewn cyfnod penodol o amser a lle. O'r herwydd, mae'n galluogi'r unigolyn ifanc i werthuso'r hyn y byddai'n ei flaenoriaethu fel y newid mwyaf arwyddocaol iddo ef/hi a'r gwahaniaeth a wnaed o ganlyniad i'r rhyngweithio rhyngddo ef/hi â mudiad ieuencid. Gall straeon o'r fath gael eu casglu mewn gwahanol ffyrdd: gan weithiwr ieuencid, drwy holi unigolyn ifanc, drwy drafodaeth grŵp, neu drwy i unigolyn ifanc ysgrifennu'r stori. Wedyn, bydd unigolion ar lefel uwch o fewn y mudiad yn archwilio a thrafod y straeon, gan ddewis a datblygu cyfiawnhad am yr hyn a ystyrir ganddynt fel y newid mwyaf arwyddocaol o'r cwbl. Yna caiff eu dewis hwy ei esbonio a'i gyfiawnhau i lefelau eraill o fewn y mudiad. Mae'r broses o adborth yn dilysu a chryfhau atebolrwydd o ran y dewisiadau a wnaed. Gellir cynnwys elfen feintiol fel rhan o'r dull hefyd, e.e. drwy fesur y mathau o newidiadau arwyddocaol sy'n ymddangos mewn gwahanol straeon sydd wedi cael eu casglu.

08.

8.6 Ymysg ei gryfderau mae'r ffaith ei fod yn defnyddio data a all gael ei gasglu gan lawer o bobl ac y gall adeiladu capasiti staff a gwirfoddolwyr. O sail ansoddol i ddechrau, gellir ychwanegu elfennau meintiol. Mae'n darparu ffordd werthfawr o fesur rhaglenni gyda chanlyniadau niferus a gall ganfod canlyniadau annisgwyl. Gellir ei ddiwygio i adlewyrchu maint mudiad a gall alluogi canolbwyntio ar wahanol agweddau ar eu gweithgarwch neu ar leoliadau daearyddol gwahanol. Caiff ei ddefnyddio yn y sector ieuenctid yn Lloegr ac mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus. Yn ogystal, mae'n ddull y gellir ei ddefnyddio mewn ffyrdd hyblyg; i roi sylw i effaith ehangach mudiadau ieuenctid neu yng nghyswllt eu heffaith fwy penodol ar faterion fel defnydd iaith.

8.7 Fframwaith Gwerthuso Urdd Gobaith Cymru (Catrin James)

Un enghraifft lle y defnyddiwyd y Dull Newid Mwyaf Arwyddocaol yn y sector gwaith ieuenctid mewn iaith leiafrifol yw gan Urdd Gobaith Cymru fel rhan o ddatblygu eu fframwaith gwerthuso. Esboniodd Catrin James, eu bod wedi datblygu fframwaith er mwyn gwerthuso effaith eu gweithgareddau o ran cynyddu hyder mewn defnyddio iaith oedd yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r Urdd wedi mabwysiadu Theori Newid fel fframwaith dadansoddi ei weithgareddau, y math o newidiadau mae'n ceisio'u cyflawni a'r canlyniadau canolradd.
- Ar lefel ranbarthol (17 rhanbarth), mae fformat safonol, cyson i gasglu data ar draws yr holl ddarpariaeth o fewn rhanbarth yn erbyn targedau a osodir gan y mudiad (gan gynnwys targedau'r cyllidwyr). Mae'r dull a ddatblygwyd yn 'ddogfen fyw' sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd gan alluogi'r mudiad i fonitro casglu data'n gyson ar draws yr holl adrannau. Esblygiad pellach yn y fframwaith yw casglu data i sicrhau mapio yn erbyn ardaloedd targed daearyddol, ac ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Pwyslais ar fesur y pellter a deithiwyd drwy ddefnyddio model Dangos Llwyddiant a ddefnyddiwyd fel rhan o brosiect blaenorol a dderbyniodd gyllid Ewropeaidd, 'Cyrraedd y Nod'. Mae'r pwyslais ar fesur cynnydd o ran rhyngweithio, cymhelliant a chyfranogaeth weithredol, annibyniaeth a pharch tuag at eraill. Mae defnydd o'r Gymraeg wedi'i ychwanegu at y mesurau, sy'n cael ei ddeall fel parodrwydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg; gweld gwerth mewn defnyddio'r Gymraeg; parodrwydd a hyder i gyfathrebu yn y Gymraeg. Defnyddir y data hwn i fesur y pellter a deithiwyd ar lefel unigolion ond hefyd ar raddfa uwch wedi'i fynegi'n feintiol ar draws lefelau'r mudiad hyd at lefel ar draws Cymru.
- Mae astudiaethau achos hefyd yn cael eu datblygu i ddeall canlyniadau gwaith y mudiad / manteision gweithgaredd penodol o safbwynt unigolyn ifanc. Defnyddir dull cyson o gasglu astudiaethau achos ar draws y mudiad, yn nhermau'r math o dystiolaeth a gesglir (gan gynnwys dyfyniadau gan y bobl ifanc). Ar y sail hon, mae'r Urdd yn datblygu storfa o dystiolaeth (70 astudiaeth achos yn cael eu casglu ddwy waith y flwyddyn yn genedlaethol) ac mae'r dull Newid Mwyaf Arwyddocaol yn cael ei ddefnyddio yn y broses o drafod astudiaethau achos o fewn yr Urdd.

08.

8.8 Data wrth werthuso ymdrechion i hyrwyddo iaith (Hywel Jones)

Tynnodd Hywel Jones sylw at faterion allweddol ynghylch y ffordd mae mudiadau'n defnyddio data ac yn deall eu heffaith. Roedd prif bwyntiau ei gyflwyniad fel a ganlyn:

- Mae canllawiau presennol o gymorth i annog mudiadau i fod yn glir ynghylch pwrpas y data, ei ansawdd a'r defnydd a wneir ohono, ac a yw dangosyddion yn ymwneud â mewnbynnau, gweithgareddau, canlyniadau (ychydig yn anoddach eu hasesu) neu effaith (llawer anoddach ei asesu). Gofynion pwysig eraill ar gyfer dangosyddion yw a ydynt yn fanwl gywir/ wedi'u diffinio'n dda, yn ddibynadwy, yn ddilys, yn fesuradwy ac yn ymarferol.
- Mae'n bosibl dod ar draws enghreifftiau ble mae problemau amlwg gyda'r data yn adrodd ar ddangosyddion penodol, gan arwain at ddata afrealistig. Yn aml, cyfyd hyn oherwydd pwysau ar fudiad i ddangos gwelliant o flwyddyn i flwyddyn ym mherfformiad ymyriad/ gweithgaredd. Fodd bynnag, mae'r data'n arwain at gwestiynau ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd i werthuso'r dangosydd neu a gafwyd newidiadau nas adroddwyd amdanynt yn y dulliau casglu data. Mae cymariaethau o ddata a adroddwyd dros y blynyddoedd ac ar draws gweithgareddau'n werthfawr i ganfod problemau posibl gyda dibynadwyedd y data a'r dulliau a ddefnyddiwyd.
- Gellir gofyn cwestiynau ynghylch sut mae cyllidwyr yn defnyddio data a gyflwynir gan fudiadau, ac a oes craffu digonol ar y data hwn ai peidio.
- Gan ystyried y mathau o faterion capasiti a godwyd, mae cyfle i ddarparu cefnogaeth i fudiadau er mwyn dilysu eu data a gwella cywirdeb dulliau casglu data.
- Mae risgiau bod gofyn i fudiadau gyflawni canlyniadau sy'n rhy sylweddol ac afrealistig e.e. bod gweithgareddau sy'n hyrwyddo defnydd o iaith yn ddigonol i achosi newid ystyrion a pharhaol.
- Mae risgiau os yw mudiadau yn canolbwyntio yn unig ar gasglu data a defnyddio dangosyddion i adrodd ar brosiectau sy'n cael eu hariannu. Byddai mudiadau'n elwa o ystyried pa ddata allai fod yn fwy defnyddiol i'w dibenion eu hunain a sicrhau eu bod yn cyflawni nodau penodol, yn hytrach na ddim ond i ddibenion adrodd ar yr hyn a allai fod yn nodau na ellir eu cyflawni.
- Gall ymchwil a modelau presennol ynghylch y ffactorau sy'n effeithio ar iaith pobl ifanc hysbysu gwaith mudiadau. Mae un model a ddatblygwyd yng Ngwlad y Basg gan Luna a Suberbiola (2008) yn ceisio modelu defnydd iaith a rhoi ystyriaeth i'r ffactorau niferus sy'n effeithio ar lefelau iaith. Tynnwyd sylw at astudiaethau eraill a allai hysbysu dealltwriaeth mudiadau ynghylch y cyd-destun o ran rhwydweithiau pobl ifanc a defnydd iaith, sy'n darparu cyd-destun i'r model a gyflwynwyd (Adroddiad 2006 Cwmni Iaith a Chanolfan Ymchwil Ewrop i Fwrdd yr Iaith Gymraeg), defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned (Hodges a Prys et al, 2015), ymchwil i amodau sy'n dylanwadu ar Drosoglwyddo'r iaith Gymraeg a'i Defnydd o fewn Teuluoedd (Evas, Morris a Whitmarsh, 2017).

08.

- Mae mathau eraill o ddata meintiol fel cwestiynau cyfrifiad ac arolygon defnydd iaith hefyd yn darparu cyd-destun ehangach i waith gwerthuso a mesur effaith mudiadau (e.e. Data Arolwg Defnydd iaith). Fodd bynnag, mae hefyd gyfyngiadau i werth rhywfaint o'r data hwn gan nad yw union nifer yr ymatebwyr i gwestiynau bob amser yn ddigonol (e.e. cwestiynau ynghylch ymhle mae plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg, i ba raddau maent wedi ymgysylltu â digwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol a gynhaliwyd drwy gyfrwng y Gymraeg a heb gael ei drefnu gan eu hysgol).

8.9 Dulliau Arolwg Arsylwi Defnydd iaith (Asier Basurto Arruti)

Sefydlwyd Arolwg Stryd Gwlad y Basg i asesu lefelau defnydd iaith yn yr 1980au mewn ymateb i'r angen am ddangosyddion cymdeithaseg iaith ac mae wedi datblygu i fod yn un o'r prif bwyntiau cyfeirio ar gyfer deall sefyllfa'r Fasgeg. Mae'r fethodoleg hefyd wedi ei datblygu a'i haddasu i'w defnyddio yn y gweithle, mewn meysydd chwarae neu fuarth ysgol, mewn timau chwaraeon ac fel rhan o brosiectau dadansoddi manwl. Mae ei defnyddio mewn ardaloedd mwy caeedig o'r math hwn, yn hytrach nac ar y stryd, yn newid y fethodoleg o ganolbwyntio ar gasglu gwybodaeth ddemograffig (e.e. rhyw a grŵp oedran ar sail arsylwi) i gasglu mwy o wybodaeth benodol am y siaradwr. O ran defnydd mewn ysgolion, gall athrawon gynnal yr arolwg, e.e. ar fuarth ysgol drwy gymryd nodiadau. Mae adnoddau ar gael er mwyn rhoi gwybodaeth am ddefnyddio'r fethodoleg (Altuna a Basurto, 2013).


8.10 Cynnig i Fonitro Ffactorau sy'n Effeithio ar Ddefnydd iaith Pobl Ifanc (Asier Basurto Arruti)

Dadansoddodd y Soziolinguistika Klusterra y ffactorau sy'n effeithio ar ddefnydd iaith pobl ifanc drwy ymgynghori ag arbenigwyr (mewn prifysgolion, cymdeithasau iaith Basgeg, ysgolion, grwpiau ieuenctid) a thrwy ymgynghori â phobl ifanc (o wahanol oedrannau a chyd-destunau daearyddol). Canfu'r astudiaeth fod un ar ddeg o ffactorau'n dylanwadu ar ddefnydd iaith, a dosbarthwyd hwy i dair 'lefel': (i) y lefel gymdeithasol neu facro-gymdeithasol, (ii) yr amgylchedd agos, neu lefel ficro-gymdeithasol a (iii) yr hunan, neu lefel unigolyn. Cyflwynir yn y siart yr un ar ddeg ffactor, a'u mapio ar y tair lefel.

Mae'r Soziolinguistika Klusterra wedi defnyddio'r ymchwil hwn i gynhyrchu llyfr 'GPS defnydd iaith' fel arweinlyfr ar gyfer dealltwriaeth a gweithredu ar ddefnydd iaith pobl ifanc.

08.

Ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith pobl ifanc



Ffynhonell: Soziolinguistika Klusterra

08.

8.11 Lleisiau Bach – Little Voices a'r Dull Plant fel Ymchwilwyr (Arwyn Roberts and Jane Williams)

Mae prosiect Lleisiau Bach a'u datblygiad o'r prosiect plant fel ymchwilwyr wedi'u osod yng nghyd-destun yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant ac wedi'i ddatblygu o ymchwil gyda phlant o fewn y fframwaith ar gyfer adrodd ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Cymru, a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2004.

Maent yn gweithio mewn prosiectau lleol gyda phlant a phobl ifanc fel ymchwilwyr, yn darparu hyfforddiant ac ymchwil gyda phlant a darparu cefnogaeth i ymchwilwyr ac eraill sydd eisiau denu diddordeb plant yn eu gwaith. Mae eu prosiectau eu hunain gyda phlant a phobl ifanc fel ymchwilwyr yn canolbwyntio ar bwnc mae plant a phobl ifanc yn penderfynu sy'n fater maent yn dymuno ei wella, mater maent eisiau ymchwilio iddo a ble maent o'r farn y gallent, yn rhesymol, gael effaith. Caiff yr ymchwil ei roi yn ei gyd-destun drwy eu cyflwyno i hawliau plant a bydd y plant yn cyfrannu at wahanol gamau yn y broses, gan ganiatáu iddynt ddewis y dulliau o ymchwilio ac ymgymryd ag ymchwil o'r fath. Bydd y prosiect hefyd yn cynnal cyfarfod dilynol gyda'r plant yn union wedi'r prosiect a chwe mis wedyn er mwyn mesur y pellter a deithiwyd, yn benodol yng nghyswllt hawliau ac ymgysylltu. Mae'r prosiect wedi datblygu llawlyfr hyfforddi ynghylch eu dull gweithredu Plant fel Ymchwilwyr.⁴



⁴ Dale, H, Roberts, A (n.d.) Llawlyfr Hyfforddi Lleisiau Bach Little Voices, [https://www.swansea.ac.uk/media/Little-Voices-Project-\(English\)-v5.pdf](https://www.swansea.ac.uk/media/Little-Voices-Project-(English)-v5.pdf)

Atodiad: Rhaglen Gweithdy

Gwerthuso, Effaith a Chanlyniadau ym maes gweithio gyda phlant ac ieuenctid wrth hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol

Gweithdy a drefnwyd gan Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD), prosiect Canolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil a gyllidwyd gan ESRC ac a gynhaliwyd yng nghanolfan Urdd Gobaith Cymru.

25 a 26 Chwefror 2019, Canolfan yr Urdd Bae Caerdydd

RHAGLEN

Dydd Llun 25 Chwefror

12.00 - 13.00	Cinio a Chofrestru
13.00 - 15.00	Croeso a Sesiwn 1 Gwerthuso ac asesu effaith yng nghyd-destun gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn gweithgaredd hyrwyddo iaith leiafrifol neu ranbarthol – arferion cyfredol a datblygu arferion? <i>Yr Athro Rhys Jones a Dr Elin Royles (Prifysgol Aberystwyth)</i> <i>a Dr Fiona O'Hanlon (Prifysgol Caeredin)</i>
15.00 - 15.30	Te/Coffi
15.30 - 17.30	Sesiwn 2 Panel profiadau o effaith, gwerthuso a chanlyniadau mewn gwaith hyrwyddo iaith gyda phlant a phobl ifanc Siaradwyr <i>Catrin James, Urdd Gobaith Cymru, Cymru</i> <i>Feargal Mac Ionnrachtaigh, Glór na Móna, Gogledd Iwerddon</i> <i>Caitríona Ní Cheallaigh, Cumann na bhFiann, Iwerddon</i> <i>Dòmhnall MacNèill a Marina Mhoireach,</i> <i>Comunn na Gàidhlig, yr Alban</i>
17.30 - 18.00	Sesiwn 3 - Myfyrío ar y diwrnod cyntaf
19.30 -	Swper nos, bwyty Côte Brasserie

Atodiad: Rhaglen Gweithdy

RHAGLEN

Dydd Mawrth 26 Chwefror

9.30 - 10.30	Sesiwn 4 Rhannu: cyfnewid profiadau ac arfer da – holl fynychwyr
10.30 - 10.45	Te/Coffi
10.45 -12.15	Sesiwn 5 Sesiynau cyfoethogi methodolegau gwerthuso ac asesu effaith Siaradwyr Y Dull Newid Mwyaf Arwyddocaol <i>Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth</i> Dull Arolwg Arsylwi Defnydd Iaith Monitro Ffactorau sy'n Effeithio ar Ddefnydd Iaith Pobl Ifanc <i>Asier Bassurto Arruti, Soziolinguistika Klusterra, Gwlad y Basg</i> Data a gwerthuso ymdrechion hyrwyddo iaith <i>Hywel Jones, Statiaith</i> Lleisiau Bach – Little Voices a'r dull Plant Fel Ymchwilwyr <i>Arwyn Roberts a Helen Dale, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe</i>
12.15 - 12.45	Sesiwn 6 Trafodaeth gloi a chymau nesaf
12.45 -	Cinio ac ymadael

Llyfryddiaeth

- Altuna, O., Basurto, A. (2013) *A guide to language use observation methods* (Soziolinguistika Klusterra)
<https://issuu.com/skluster/docs/gida-ing>
- Bòrd na Gàidhlig (2018) *National Gaelic Language Plan 2018-2023*,
<http://www.gaidhlig.scot/wp-content/uploads/2018/03/BnG-NGLP-18-23.pdf>
- Evas, J., Morris, J., Whitmarsh, L. (2017) *Ymchwil i amodau sy'n dylanwadu ar Drosgrwyddo'r Iaith Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd*
<https://gweddill.gov.wales/docs/caecd/research/2017/170612-welsh-language-transmission-use-in-families-en.pdf>
- Llywodraeth Iwerddon (2010) *20-Year Strategy for the Irish Language 2010-2030*
<https://www.chg.gov.ie/app/uploads/2015/07/20-Year-Strategy-English-version.pdf>
- Hodges, Rh., Prys, C. Et al (2005) *Astudiaeth Ymchwil Defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y Gymuned*
<https://gweddill.gov.wales/docs/caecd/research/2015/151007-welsh-language-use-community-research-study-en.pdf>
- de Luna, I. M., Suberbiola, P. (2008) 'Measuring Student language use in the School Context', *Language, Culture and Curriculum*, 21: 1, 59-68.
- Royles, E., Jones, Rh. (2018) *Adroddiad Briffio Gweithdy: Gwerthuso, Effaith a Chanlyniadau: Beth mae'n ei olygu i ni?*
<http://cwps.aber.ac.uk/wp-content/uploads/2018/07/Gwerthuso-Effaith-a-Chanlyniadau-Beth-maen-ei-olygu-i-ni-Adroddiad-Terfynol.pdf>
- Llywodraeth Cymru (2012) *Iaith fyw: iaith byw Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2012-17*
<https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/122902wls201217en.pdf>
- Llywodraeth Cymru (2015) *Cymraeg 2050: A million Welsh speakers*
<https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-eng.pdf>